# Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) Caernarfon

Ar ôl i chi gwblhau'r holiadur, rhowch o yn yr amlen sydd wedi ei ddarparu a'i ddychwelyd i Gyngor Gwynedd naill ai:

- drwy llyfrgell Caernarfon;
- drwy Siop Gwynedd Caernarfon;
- neu drwy'r Post Brenhinol (ni fydd angen gosod stamp ar yr amlen a ddarperir).

Os ydych angen y ddogfen hon mewn iaith neu fformat arall, ffoniwch 01766 771 000 neu e-bostiwch DiogelwchCymunedol@gwynedd.llyw.cymru

Byddwn yn casglu barn ar GDMC Caernarfon tan 7 Ebrill 2024.

Diolch yn fawr.

**Mae’r holiadur hwn yn ddienw. Peidiwch â chynnwys gwybodaeth a fyddai'n datgelu pwy ydych chi neu unrhyw unigolyn arall oni bai eich bod yn dymuno i ni gysylltu â chi ynglŷn â chyfleoedd i ymgysylltu ymhellach.**

Bydd yr wybodaeth a roddwch wrth gwblhau'r arolwg hwn yn cael ei drin yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data.

## Beth yw Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC)?

Mae GDMC yn un o'r pwerau a gyflwynwyd gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Heddlu 2014. Mae'n rhoi pwerau i'r awdurdodau orfodi cyfyngiadau a gofynion ar unigolion o fewn ardaloedd dynodedig, mae hyn er mwyn mynd i'r afael â **niwsans neu broblemau penodol mewn ardaloedd gyda'r nod o wella bywyd ymwelwyr a thrigolion yn yr ardal.**

## Pam yw GDMC yn cael ei ystyried?

Yng Nghaernarfon, mae'r penderfyniad i ystyried Gorchymyn Diogelu'r Mannau Cyhoeddus (GDMC) yn ymateb i fathau newydd ac yn gynyddol o ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn yr ardal benodol. Mae data'r heddlu ac adroddiadau tystion wedi amlygu graddfa'r broblem, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar drigolion, busnesau ac ymwelwyr. Cyn ystyried GDMC, rhaid i'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon:

- Fod ymddygiad o'r fath mewn gofod cyhoeddus wedi cael, neu'n debygol o gael, effaith niweidiol ar ansawdd bywyd pobl yn y gymdogaeth.
- Bod y gweithgareddau hyn yn, neu'n debygol o fod, yn aml ac o fewn natur barhaus.
- Bod y gweithgareddau hyn yn, neu'n debygol o fod, yn afresymol.
- Eu bod yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a amlinellir.

**Beth yw'r cyfyngiadau arfaethedig?**

Mae'r cyfyngiadau dan ystyriaeth wedi'u datblygu'n benodol i ddelio â'r mathau o ymddygiad sy'n achosi'r problemau mwyaf difrifol yn yr ardal hon, ac felly maent yn cyfiawnhau eu cynnwys. Rydym yn ystyried y cyfyngiadau canlynol yn briodol, sef:

1. Ni chaiff unigolyn ddilyn dull o ymddygiad sy'n achosi, neu y gellir ei dyblygu'n rhesymol o achosi, aflonyddu, braw, niwsans, neu drallod.
2. Ni chaiff unigolyn yfed alcohol, neu unrhyw beth y mae Person Cymeradwy yn credu'n rhesymol sy'n alcohol neu gynhwysydd sy'n dal alcohol os yw Person Cymeradwy yn gofyn i'r unigolyn stopio yfed neu i ildio'r alcohol neu'r cynhwysydd.
3. Ni chaiff unigolyn 'loiterio' mewn cyflwr meddwol drwy yfed alcohol neu gyffuriau. Os gofynnir i Berson Cymeradwy i unigolyn adael yr ardal mewn amgylchiadau lle mae'r unigolyn wedi torri'r cyfyngiad hwn, rhaid iddo adael ar unwaith.

## Amdanoch chi

**1. Ydych chi'n llenwi'r holiadur hwn fel**

Dewiswch un o'r atebion canlynol

- unigolyn (Ewch ymlaen i gwestiwn 2)
- sefydliad neu fusnes

**1.1 Enw'r sefydliad neu fusnes**

**2. Rwy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan fy mod yn**

Dewiswch un o'r atebion canlynol

- byw yn neu yn agos at yr ardal dan ystyriaeth
- gweithio yn neu yn agos at yr ardal dan ystyriaeth
- yn ymweld â'r ardal dan ystyriaeth yn rheolaidd
- Arall:

# Map Ardal GDMC Caernarfon



**Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) Caernarfon**

**3. A oes angen GDMC yn yr ardal hon?**

Dewiswch un o'r atebion canlynol

- Oes
- Nac oes
- Ddim yn siŵr (Ewch ymlaen i gwestiwn 4)

**3.1 Eglurwch pam rydych chi'n dweud hynny**

**4. Beth yw eich barn ar yr ardal arfaethedig ar gyfer y GDMC?**

Dewiswch un o'r atebion canlynol

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn siŵr (Ewch ymlaen i gwestiwn 5)

**4.1 Eglurwch pam rydych chi'n dweud hynny**

**5. Beth yw eich barn ar y cyfyngiadau arfaethedig canlynol a'r gorchymyn drafft?**

Cyfeiriwch at y 'Gorchymyn drafft' ar ddiwedd y ffurflen hon i gael manylion llawn.

**5.1 Ni chaiff unigolyn ddilyn dull o ymddygiad sy'n achosi aflonyddu, braw, niwsans, neu drallod.**

Dewiswch un o'r atebion canlynol

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn siŵr

**5.1.1 Eglurwch pam rydych chi'n dweud hynny**

**5.2 Ni chaiff unigolyn yfed alcohol os yw Person Cymeradwy yn gofyn i'r unigolyn stopio yfed.**

Dewiswch un o'r atebion canlynol

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn siŵr

**5.2.1 Eglurwch pam rydych chi'n dweud hynny**

**5.3 Ni chaiff person loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau.**

Dewiswch un o'r atebion canlynol

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn siŵr

**5.3.1 Eglurwch pam rydych chi'n dweud hynny**

**6. Rhowch unrhyw sylwadau ychwanegol sydd gennych am Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus CAERNARFON**

**7. Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y penderfyniad ar y Gymraeg, y cyfleoedd i'w defnyddio a'i statws o fewn y gymuned?**

Dewiswch un o'r atebion canlynol

- ○ Effaith gadarnhaol
- ○ Ychydig o effaith gadarnhaol
- ○ Niwtral
- ○ Ychydig o effaith negyddol
- ○ Effaith negyddol sylweddol

**7.1 Oes yna unrhyw gyfleoedd i addasu'r hyn sydd yn cael ei gynnig er mwyn cael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a'r defnydd ohoni, neu i gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol?**

**8. Yn eich barn chi, ydi'r GDMC yma yn debygol o gael effaith ar bobl sy’n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu tlodi o bob math – tlodi ariannol, tlodi digidol, byw ymhell o wasanaethau ayb

## Amdanoch chi

Bydd ateb y cwestiynau canlynol yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod wedi casglu barn amrywiaeth o bobl ac yn rhoi cyfle i bawb o bob cefndir gymryd rhan.

Nid oes rhaid i chi eu hateb. Bydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn gwbl gyfrinachol. Ni fydd yn bosib i ni eich adnabod.

Dim ond i bwrpas dadansoddi ystadegau y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio.

Os ydych yn cwblhau'r holiadur hwn ar ran mudiad, peidiwch â llenwi'r adran hon.

**Rhyw**

Dewiswch un o'r atebion canlynol

- ○ Dyn / Gwryw
- ○ Dynes / Benyw
- ○ Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol
- ○ Gwell gennyf beidio â dweud

**Nodwch eich grŵp oedran**

Dewiswch un o'r atebion canlynol

- 15 oed neu iau
- 16 - 24 oed
- 25 - 34 oed
- 35 - 44 oed
- 45 - 54 oed
- 55 - 64 oed
- 65 - 74 oed
- 75 - 84 oed
- 85 + oed
- Gwell gennyf beidio â dweud

**Sut fyddech chi yn disgrifio eich sgiliau yn y Gymraeg?**

Ticiwch unrhyw rai sy’n berthnasol

- Siarad, darllen ac ysgrifennu yn rhugl
- Siarad, darllen ac ysgrifennu, ond ddim yn hyderus iawn
- Siarad, darllen ac ysgrifennu – wrthi’n dysgu
- Siarad, ond ddim yn darllen nac ysgrifennu
- Ddim yn gallu siarad na deall Cymraeg
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall: ____________________

**Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol?**

Dewiswch un o'r atebion canlynol

- Cymreig
- Seisnig
- Albanaidd
- Gwyddelig o Ogledd Iwerddon
- Prydeinig
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall:

**Beth yw eich hil?**

Dewiswch un o'r atebion canlynol

- Gwyn
- Du / Affricanaidd / Caribïaidd
- Asiaidd
- Sipsiwn / teithiwr Gwyddelig
- Cymysg / sawl grŵp ethnig
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall:

**Beth yw eich crefydd?**

Dewiswch un o'r atebion canlynol

- ○ Dim crefydd
- ○ Cristion
- ○ Mwslim
- ○ Bwdhaidd
- ○ Hindŵ
- ○ Iddewig
- ○ Sîc
- ○ Gwell gennyf beidio â dweud
- ○ Arall: ____________________

**Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau?**

(Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn yma os ydych o dan 16 oed)

Dewiswch un o'r atebion canlynol

- ○ Heterorywiol / Strêt
- ○ Dyn hoyw
- ○ Dynes hoyw / lesbiaidd
- ○ Deurywiol (Bisexual)
- ○ Gwell gennyf beidio â dweud
- ○ Arall: ____________________

**Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni?  (er enghraifft rydych chi'n drawsrywiol neu trans ayyb)**

(Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn yma os ydych o dan 16 oed)

Dewiswch un o'r atebion canlynol

- Ydi
- Nac ydi
- Gwell gennyf beidio â dweud

Mae Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod unigolyn yn anabl os:

a. Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a

b. Bod gan y nam effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

**Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?**

Dewiswch un o'r atebion canlynol

- Ydw
- Nac ydw
- Gwell gennyf beidio â dweud

**<u>CYNGOR GWYNEDD</u>**
**<u>DEDDF YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL, TROSEDD A PHLISMONA 2014</u>**
**<u>GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CYNGOR GWYNEDD (ALCOHOL AC YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL) (CAERNARFON, CRICIETH A PWLLHELI) 2023</u>**

Mae Cyngor Gwynedd ("y Cyngor"), drwy arfer y grym a roddwyd iddo gan adran 59 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 ("y Ddeddf"), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd (Alcohol ac Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol) (Caernarfon, Cricieth a Pwllheli) 2023.

2. Daw y Gorchymyn hwn i rym ar **[XXXXXXXXXX]** a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o 3 blynedd tan **[XXXXXXXXXX]**, oni bai y caiff yn y cyfamser ei ddiddymu, ei ddiwygio, neu ei ymestyn gan Orchymyn pellach yn unol â grymoedd statudol y Cyngor.

3. Mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i'r ardaloedd a amlinellir yn goch ar y cynllun a atodwyd yn Atodlen 1 ("yr Ardaloedd Gyfyngedig").

4. Mae'r Cyngor yn fodlon bod yr amod cyntaf o dan adran 59(2) o'r Ddeddf wedi cael ei bodloni, sef:

    a. bod y gweithgareddau canlynol wedi cael eu cynnal o fewn man cyhoeddus yn yr Ardaloedd Gyfyngedig:

        i. yfed alcohol;

        ii. ymddygiad sydd yn debygol o achosi aflonyddwch, braw, niwsans neu drallod;

        iii. loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau, a

    b. bod y gweithgareddau hyn wedi cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardaloedd, ac mae'n debygol y bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal mewn man cyhoeddus yn yr ardaloedd honno ac y byddant yn cael effaith o'r fath.

5. Mae'r Cyngor yn fodlon bod yr ail amod o dan adran 59(2) o'r Ddeddf wedi cael ei bodloni, sef bod effaith, neu effaith debygol y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod, o natur barhaus neu barhaol a'i fod, neu'n debygol o fod, yn gwneud y gweithgaredd yn afresymol, ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodwyd gan y Gorchymyn.

6. Effaith y Gorchymyn hwn yw gosod y gwaharddiadau a/neu ofynion canlynol ym mhob man cyhoeddus yn yr Ardaloedd Gyfyngedig ar bob adeg.

**Yfed alcohol**

7. Yn ddarostyngedig i erthygl 9, mae'r gwaharddiadau canlynol yn gymwys:

a. Ni chaiff person ("P") yfed alcohol, nac unrhywbeth y mae Person Awdurdodedig yn rhesymol gredu i fod yn alcohol, os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i P stopio ag yfed.

b. Ni chaiff P feddu ar alcohol neu gynhwysydd i ddal alcohol, nac unrhywbeth y mae Person Awdurdodedig yn rhesymol gredu i fod yn alcohol neu gynhwysydd i ddal alcohol, os yw'r Person Awdurdodedig yn gofyn i'r P ildio'r alcohol neu'r cynhwysydd.

8. Yn ddarostyngedig i erthygl 9, mae'r gofynion canlynol yn gymwys:

a. Os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i P stopio ag yfed yn yr amgylchiadau a nodir yn erthygl 7(a), rhaid i'r P stopio yfed ar unwaith.

b. Os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i P ildio alcohol neu gynhwysydd yn yr amgylchiadau a nodir yn erthygl 7(b), rhaid i'r P ildio'r cyfryw alcohol neu gynhwysydd i'r Person Awdurdodedig ar unwaith.

9. Nid yw darpariaethau erthyglau 7 ac 8 yn gymwys lle bo'r P yn yfed alcohol mewn mangre neu fan sydd o ganlyniad i adran 62 o'r Ddeddf yn eithriedig rhag waharddiad mewn gorchymyn diogelu mannau cyhoeddus ar yfed alcohol.

**Ymddygiad sydd yn debygol o achosi aflonyddwch, braw, niwsans neu drallod**

10. Ni chaiff P ddilyn cwrs o ymddygiad sydd yn achosi, neu sydd yn rhesymol canfod ei fod yn achosi, aflonyddwch, braw, niwsans neu drallod i berson arall.

11. Os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i P ymadael â'r ardal mewn amgylchiadau lle bo'r P wedi tramgwyddo erthygl 10, rhaid i'r P ymadael ar unwaith.

**Loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau**

12. Ni chaiff P loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau neu'r ddau.

13. Os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i P ymadael â'r ardal mewn amgylchiadau lle bo'r P wedi tramgwyddo erthygl 12, rhaid i'r P ymadael ar unwaith.

**Person Awdurdodedig**

14. At ddibenion y Gorchymyn hwn, mae Heddwas, Swyddog Cefnogaeth Gymunedol yr Heddlu a swyddog o'r Cygor yn Bersonau Awdurdodedig.

**Cosb**

15. Mae person sydd heb esgus rhesymol yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan erthygl 8 o'r Gorchymyn hwn yn euog o drosedd yn unol ag adran 63 o'r Ddeddf ac yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

16. Mae person sydd heb esgus rhesymol yn gwneud unrhyw beth a waherddir iddo rhag ei wneud gan erthyglau 10, 12 neu 14 o'r Gorchymyn hwn neu yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan erthyglau 11, 13 neu 15 o'r Gorchymyn hwn yn euog o drosedd yn unol ag adran 67 o'r Ddeddf ac yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

17. Gall Person Awdurdodedig roi rhybudd cosb benodol am swm o hyd at £100.00 yn unol ag adran 68 o'r Ddeddf i unrhyw berson y mae ef yn credu sydd wedi cyflawni trosedd o dan adrannau 63 neu 67 o'r Ddeddf o ganlyniad i'r person hwnnw yn gwneud unrhyw beth a waherddir gan y Gorchymyn neu yn methu â chydymffurfio â gofyniad o osodir gan y Gorchymyn hwn.

**Herio'r Gorchymyn**

18. Yn unol ag adran 66 o'r Ddeddf, gall unrhyw berson â diddordeb sydd yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor y grym i wneud y Gorchymyn neu bod diffyg cydymffurfiad â gofyniad o'r Ddeddf wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o'r dyddiad y gwnaethpwyd y Gorchymyn.

Llofnodwyd y diwrnod o 2024

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR GWYNEDD )**
**AR HWN YM MHRESENOLDEB )**
**)**

**..................................................**
**Llofnodydd awdurdodedig**